



Gêm geirfa cynaliadwyedd

Adnoddau naturiol

Deunyddiau a sylweddau
a gynhyrchir gan natur y
gall pobl eu defnyddio i
gynorthwyo eu bywydau
bob dydd.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Cynaliadwyedd

Gwneud penderfyniadau
a gwneud pethau a fydd
yn achosi ychydig iawn o
niwed, neu ddim niwed o
gwbl, i'r amgylchedd tra'n
caniatáu i bobl ddefnyddio
adnoddau naturiol heb
iddynt ddod i ben.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Hinsawdd

Y tywydd arferol a geir
mewn man penodol dros
gyfnod hir o amser. Gall
hyn gynnwys tymheredd,
glawiad ac amodau tywydd
eraill.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Bioamrywiaeth

Amrywiaeth fiolegol bywyd
ar y Ddaear sy'n ffurfio'n
byd naturiol. Mae pob
organeb a rhywogaeth yn
bwysig, ac yn cydweithio
mewn ecosystemau i gadw
cydbwysedd a chynnal
bywyd.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Newid hinsawdd

Newidiadau tymor hir ar
raddfa fawr ym mhatrymau
cyfartalog y tywydd a'r
tymheredd ar lefel leol,
genedlaethol a byd-eang.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Ynni gwyrdd

**Ynni sy'n deillio o
adnoddau naturiol fel
gwynt, solar ac ynni dŵr.
Mae'r rhain yn ailgyflenwi'n
naturiol heb ddisbyddu
adnoddau'r blaned a gellir
eu defnyddio am gyfnod
amhenodol.**





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Anadnewyddadwy

Adnoddau naturiol sydd â chyflenwad cyfyngedig a rhai na ellir eu disodli ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Er enghraifft, tanwyddau ffosil fel glo, olew a nwy.






Gêm geirfa cynaliadwyedd

Carbon

Elfen gemegol a geir ym
mhopeth byw. Mae ei
gyfansoddion yn ffurfio
solidau, hylifau a nwyon.
Y moleciwlau carbon
hyn yw blociau adeiladu
sylfaenol bodau dynol,
anifeiliaid, planhigion, coed
a phriddoedd.






Gêm geirfa cynaliadwyedd

Carbon deuocsid

Mae carbon yn dod yn garbon deuocsid pan fydd atom o garbon yn ymuno â dau atom o ocsigen. Mae'n nwy di-liw, di-flas a di-arogl, sy'n bresennol yn naturiol yn atmosffer y Ddaear ac mae'n cael ei gynhyrchu gan bob organeb fyw.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Allyriadau carbon deuocsid

**Rhyddhau carbon deuocsid
i atmosffer y ddaear, sy'n
cyfrannu at newid hinsawdd.**





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Ôl-troed carbon

Mesur o faint o garbon deuocsid y mae gweithgareddau rhywun yn ei gynhyrchu.

CO₂





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Storfa garbon

Rhywbeth sy'n amsugno mwy o allyriadau carbon deuocsid nag y mae'n ei ryddhau, gan eu storio ac atal y nwyon hyn rhag cael effaith ar yr hinsawdd.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Datgoedwigo

Clirio neu dorri coedwigoedd
i lawr gan arwain at golli
gorchudd coedwig yn
barhaol.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

**Cyfnod hir o
dywydd sych**



**Prinder dŵr a all effeithio
ar bobl a'r amgylchedd.
Mae hyn yn digwydd pan fo
diffyg glawiad dros gyfnod
estynedig o amser, fel arfer
tymor neu fwy.**





Gêm geirfa cynaliadwyedd

Bioddiraddiad

Gallu deunydd i bydru a diraddio'n naturiol dros amser mewn ffordd nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd. Mae defnyddiau'n cael eu hydoddi gan facteria neu eu bwyta gan ficro-organebau. Mae hon yn broses bwysig mewn ecoleg a rheoli gwastraff.





Gêm geirfa cynaliadwyedd

**Yr amgylchedd
naturiol**

**Amgylchedd naturiol
sy'n cynnwys gwahanol
ecosystemau megis
rhai arfordirol a morol,
coedwigoedd, glaswelltiroedd,
mawndiroedd ac afonydd lle
mae pethau byw ac anfyw yn
bodoli ar y Ddaear.**

